Llais y Gymanfa

Newyddion o Gymanfa Gyffredinol
Eglwys Bresbyteraidd Cymru 2008

Carol, Meirion a Siân

DIOGELWCH PLANT – EGLWYS AR Y BLAEN

Mae Eglwys Bresbyteraidd Cymru yn flaenllaw ym maes diogelwch plant ac oedolion bregus.

Mae'r Presbyteriaid, ynghyd â'r Annibynwyr a'r Bedyddwyr, yn rhannu arbenigedd y Panel Diogelwch Cydenwadol er mwyn sicrhau nad oes pobl anaddas yn gweithio gyda phlant neu bobl fregus o fewn yr enwadau.

Sgoriodd y Panel 95% mewn arolwg diweddar gan y Swyddfa Gofnodion Troseddol, ac o'r herwydd, mae wedi ei wahodd i fod yn gorff cysgodol i sefydliadau eraill sydd wrthi'n datblygu eu polisïau diogelwch. Mae'n bosibl hefyd y bydd y Panel yn cael ei droi'n gwmni cyfyngedig er mwyn iddo allu ehangu ei wasanaeth.

"Da ni ar y blaen i lot o eglwysi Prydain yn y maes yma," meddai'r Ysgrifennydd Cyffredinol, gan ddiolch i Meirion Morris, Cadeirydd y Panel, a'i staff, Carol a Siân, am eu holl waith caled.

Mae mwy o waith o flaen y Panel dros y misoedd nesaf, wrth iddynt baratoi ar gyfer dyfodiad yr Awdurdod Datgelu Annibynnol.

Bydd y corff yma yn rhwystro pobl anaddas rhag gweithio neu wirfoddoli gyda phlant neu bobl fregus. Ond wedi anfon ffurflenni gwiriad troseddol i ddwy henaduriaeth hyd yma, roedd y Parchedig Morris yn siomedig iawn â'r ymateb a gafwyd. Dim ond un allan o bob pedair ffurflen a ddychwelwyd gan un henaduriaeth.

"Ga'i apelio ar i bobl lenwi'r ffurflen gwiriad," meddai. "Mae e'n ofyn cyfreithiol er lles pobl fregus. Fe fyddai'r Wasg yn llym iawn efo polisi diogelwch mor laid-back."

DUW YN GALW?

Nid oes ymgeiswyr i weinidogaeth ordeinedig Eglwys Bresbyteraidd Cymru eleni, a hynny am y tro cyntaf mewn cof.

Yn ôl Dafydd Andrew Jones, Cyfarwyddwr y Bwrdd Bywyd a Thystiolaeth, mae dyfodol y weinidogaeth ordeinedig yn destun pryder ym mhob rhan o'r eglwys.

"Mae dylanwadau'r oes a'r trai ysbrydol ymysg y rhesymau pam bod llai o bobl yn mynd i'r weinidogaeth," meddai. "Ond mae yna fai arnom ni hefyd am fethu cyflwyno'r her yn effeithiol."

"Ond mae'n waith cyffrous, cwbl angenrheidiol ac mae'n llawn cyfleon."

Cytunodd nifer o siaradwyr ag ef, gydag un yn dweud "Does 'na 'run llwybr â chymaint o anrhydedd iddo â bod yn weinidog i Iesu Grist."

Ond awgrymodd rhai siaradwyr bod rheswm arall dros y diffyg ymgeiswyr.

"Efallai nad yw Duw yn galw!" meddai'r Parchedig Robert Bebb, Caerdydd. "Mae ein strwythurau yn anodd iawn i'w gweinyddu. Mae'r gofynion ar weinidogion heddiw yn rai anodd iawn."

Eglurodd bod ei eglwys ef ei hun yn tyfu, ond bod hynny wedi digwydd trwy weddïo ar Dduw i'w gwneud yn eglwys sydd yn adlewyrchu ei ddymuniadau Ef.

Roedd neges gadarnhaol gan eraill hefyd. Dywedodd Aron Treharne, sydd newydd orffen cyfnod Blwyddyn Gap yng Ngoleg y Bala, ei fod wedi teimlo Duw yn ei alw i'r weinidogaeth dros y flwyddyn ddiwethaf.

"Mae Duw yn galw," ategodd Gwyn Rhydderch, Cyfarwyddwr y Gwasanaeth Plant ac Ieuenctid, "ond ddim i'r weinidogaeth ordeinedig. Mae'n rhaid i ni fel enwad feddwl tu hwnt i'r weinidogaeth ordeinedig draddodiadol."

"Ymysg pobl ifanc ein henwad, mae'r 'calibre' yn ddigon uchel i fynd i'r weinidogaeth – ond mae na rwystredigaeth o ran beth sydd ar gael."

GALW AM REFFERENDWM

Bydd Eglwys Bresbyteraidd Cymru yn parhau i ymgyrchu dros fwy o bwerau deddfu i Gymru.

"Mae 'na bwerau deddfu pwysig sydd ddim ar gael i ni. Mae'r pwerau sydd gennym yn gyfyng, ac mae angen datganoli pellach," meddai Mervyn Phillips, Cadeirydd yr Adran Eglwys a Chymdeithas.

"Rydan ni'n gwneud hyn am resymau crefyddol. Mae'r gymuned yn rhan o greadigaeth Duw ac mae'n rhaid i ni fel eglwysi roi arweiniad ar ras Duw a'r ffordd mae'r gymuned yn cael ei llywodraethu."

Pwysleisiodd ei bod yn bwysig cymryd rhan yng Nghonfensiwn Cymru Gyfan, fydd yn penderfynu os yw Cymru yn barod ar gyfer mwy o bwerau deddfu.

"Oes yna gefnogaeth i fwy o rymoedd?" holodd. "Wn i ddim, ond pendroni fyddwn ni onibai bod pobl sy'n barod i ddadlau dros y peth yn gwneud felly."

Bydd yr Eglwys yn cael ei chynrychioli ar Gonfensiwn Cymru Gyfan gan Aled Edwards, Prif Weithredwr Cytûn.

"Mae gennon ni ddwy gamp fawr," meddai, "sef addysgu pobl ynglŷn â sut mae nhw'n cael eu llywodraethu, a phenderfynu pryd a sut i gynnal refferendwm."

"Mi alla'i sicrhau chi y byddwn ni fel Confensiwn yn gwrando'n astud iawn ar yr hyn sydd gan Eglwys Bresbyteraidd Cymru i'w ddweud."

"Gadewch i ni ddathlu hyn – bellach, yng ngwleidyddiaeth Cymru, ein bod ni'n cael ein lle. Mae hyn wedi digwydd oherwydd cyfraniad gofalus, pwyllog eglwys fel hon."

LLYWYDD NEWYDD: DIM DYFODOL HEB NEWID

Rhaid i'r Eglwys newid er mwyn goroesi, yn ôl Llywydd newydd Eglwys Bresbyteraidd Cymru.

Ond yn ôl Haydn Thomas, ni ddylai hyn olygu bod yr Eglwys yn ceisio cystadlu â gwerthoedd materol cymdeithas gyfoes.

"Mae gwerthoedd wedi newid – mae chwaraewyr pêl-droed yn newid dwylo am £32 miliwn ac enwogion fel Amy Winehouse yn cael eu gosod ar bedestal" meddai.

"Ond dyw'r bobl yma ddim yn cynnig arweiniad i'n pobl ifanc, a gall eglwysi helpu i lenwi'r gwactod hwn. Nid mater o gystadlu â materoldeb ydi e – allwn ni ddim cystadlu â pethau'r byd. Ond does dim rhaid i ni fod yr un fath â phethau'r byd. Dyn ni'n cynnig rhywbeth gwahanol.

"Fy nod yw gweld yr Eglwys yn datblygu ei gwaith yn y gymuned, gan gydweithio â'r llywodraeth a chynnig arweiniad ysbrydol ac ymarferol ar faterion cymdeithasol dyrys fel tlodi a cham-drin alcohol."

Dywedodd y Parchedig Thomas wrth y Gymanfa am roi lesu nôl yn hafaliad yr Eglwys, gan ddadlau bod yn rhaid i Gristnogion gymryd cyfrifoldeb dros waith yr Eglwys: "Mae cenhadaeth yn rhan bwysig o'r dyfodol. Dim cenhadu – dim eglwys! Mae angen edrych ar waith eglwys leol fel rhywbeth byw, a chyfrannu tuag at y bywiogrwydd hwnnw. Mae crefydd yn golygu mwy na chapel ar y Sul, a rhaid i ddrysau capeli fod ar agor am fwy nac awr bob wythnos."

PWY OEDD JOHN CALFIN?

"Petaen i'n gofyn 'Pwy oedd John Calfin?' dwi ddim yn siwr y byddai'r rhan fwyaf o'n haelodau yn gwybod beth i'w ddweud," meddai D Ben Rees wrth draddodi'r Ddarlith Davies.

Flwyddyn cyn pumcanmlwyddiant geni Calfin, dywedodd Dr Rees ei fod am i bobl ifanc wybod pwy oedd y dyn yma, "Arwr pennaf cenedl y Cymry".

Mae dylanwad Calfin yn drwm ar Bresbyteriaid, neu Fethodistiaid Calfinaidd, fel y mae'r enw'n awgrymu.

Ond roedd rhai o'i syniadau yn fwy dylanwadol na'i gilydd. Er enghraifft, roedd Calfin yn pwysleisio addysg Gristnogol. "Dyma lle 'da ni wedi'i cholli hi," meddai Dr Rees, gan ddweud y dylai pob capel ac eglwys fod wedi sefydlu ysgol ddyddiol amser maith yn ôl. "Marw wnawn ni gan bod dim ysgolion gennym ni," meddai.

Ond gellir gweld dylanwad Calfin yn glir mewn rhannau eraill o'r Eglwys, ac mae nifer fawr o'i ffigyrau blaenllaw dros y blynyddoedd wedi bod yn Galfinwyr o ryw fath. Cafodd diwinyddiaeth, trefn a dulliau addoli'r Eglwys hefyd eu seilio ar waith Calfin.

Dywedodd Dr Rees wrth y Gymanfa mai gweinidogion diog, ystyfnig ac aneffeithiol oedd cas beth Calfin. Fe fyddai wrth ei fodd gydag Eglwys Bresbyteraidd Cymru, felly!

YSBRYDOLI YN NHAIWAN

Ysbrydolwyd un o aelodau ifanc Eglwys Bresbyteraidd Cymru gan lwyth brodorol o Gristnogion yn Nhaiwan.

"Roedd yn brofiad anghygoel cael rhannu yng nghenhadaeth yr eglwys yno," oedd geiriau Andras Iago wrth annerch y Gymanfa.

Treuliodd Andras, sy'n aelod yng nghapel Presby, Llanelli, fis yn Nhaiwan ddechrau'r haf o dan gynllun ehangu profiad CWM (Council for World Mission). Bu yng nghynhadledd Gristnogol "Dwi'n Caru Taiwan" ac yna treuliodd bythefnos gydag un o lwythi brodorol Taiwan, gan helpu i ofalu am 40 o blant yn y clybiau plant ac ieuenctid yn y pentref.

"Mae'r llwyth yn parhau i hela yn y goedwig i raddau," meddai Andras. "Ges i brofi rhai danteithion anarferol a dweud y lleia'! Ond be oedd yn rhyfeddol oedd ein bod ni lai na ugain milltir o ddinas Taipei. Roedd o'n brofiad rhyfedd gweld y ddau ddiwylliant yn cyfarfod."

Gall Gristnogion ifanc eraill sydd yn awyddus i ehangu eu gorwelion fel y gwnaeth Andras wneud cais am grant i gael mynd dramor drwy Fwrdd Bywyd a Thystiolaeth Eglwys Bresbyteraidd Cymru.

"Bues i'n addoli efo'r bobl 'ma o ben draw'r byd oedd yn diolch i'r un Gwaredwr," meddai Andras wrth gloi. "Y peth sydd yn aros gyda fi yw peth mor anhygoel yw'r Eglwys Fyd-Eang."

> "Y PETH SYDD YN AROS GYDA FI YW PETH MOR ANHYGOEL YW'R EGLWYS FYD-EANG."

"RHAID CYDYMFFURFIO Â'R DDEDDF"

Does dim esgus: rhaid i eglwysi gydymffurfio â deddf gwlad, yn ôl yr Ysgrifennydd Cyffredinol.

Nid yw nifer o eglwysi lleol yn cyfarfod â gofynion y ddeddf iechyd a diogelwch, a dywedodd Ifan Roberts bod hyn yn peryglu bywydau aelodau yn ogystal â dilysrwydd polisïau yswiriant.

"Ai'r unig ffordd o gael eglwysi i gydymffurfio â'r ddeddf iechyd a diogelwch ydi drwy ddweud wrth yr ymddiriedolwyr nad ydyn nhw'n cael defnyddio'r adeilad?" holodd.

Aeth yn ei flaen i bwysleisio na fyddai polisi yswiriant yn ddilys pe bai damwain yn digwydd onibai bod gan yr eglwys dystysgrifau diogelwch.

Ategwyd hyn gan y Llywydd newydd, Haydn Thomas. "Ga'i apelio arnoch chi i sicrhau bod eglwysi yn cyflawni'r gyfraith sy'n ofynnol," meddai.

EFENGYL UWCHLAW ADEILADAU

Rhaid symud oddi wrth yr ymlyniad wrth adeiladau, yn ôl Cyfarwyddwr y Bwrdd Bywyd a Thystiolaeth.

Yn ôl Dafydd Andrew Jones, mae gor-ganolbwyntio amser ac arian ar gapeli yn tynnu oddi wrth wir anghenion a neges yr Eglwys.

Wrth annerch y Gymanfa Gyffredinol, neges y Parchedig Jones oedd y dylai eglwysi geisio osgoi gwariant ofer.

"Mae'n hawdd deall ymlyniad wrth adeilad drwy gysylltiadau dwys a chyffrous bywyd – ond mae'r gwariant angenrheidiol arnynt yn enfawr," meddai.

"Felly rhaid codi uwchlaw ymlyniad personol a holi pa fath o adeilad sydd ei angen i fod yn Obaith Crist yn yr ardal honno."

"Mae'r ateb yn dibynnu ar anghenion y gymuned a'r cyfleon sydd ar gael iddi. Yng Nghasnewydd, er enghraifft, mae eglwys Community House yn agor ei drysau i gymunedau ffydd eraill, ac yn ceisio heddwch a dealltwriaeth o fewn y gymuned."

"Mae rhai cynulleidfaoedd yn addoli mewn adeiladau cymunedol eraill – does dim rhaid wrth gapel er mwyn addoli" ychwanegodd.

"Ac mae capeli eraill yn manteisio a gwella ar eu adeilad presennol i hybu'r Efengyl. Mae capeli Salem, Caerdydd, a Rhos-y-Gad, Llanfairpwll, wedi adeiladu estyniad sydd nid yn unig yn ehangu'r cyfleusterau sydd ar gael i'r aelodau ond sydd hefyd yn fan cyfarfod i'r gymuned. Mae'r pwyslais yn y llefydd hyn ar dystiolaethu drwy fod yn agored ac yn rhan o'r gymuned."

"Yr hyn sy'n gyffredin yn y capeli hyn i gyd yw eu bod yn osgoi gwariant ofer ac yn dangos bod mwy i Grist nac addoli ar y Sul."

GOBAITH NEWYDD DRWY GENHADU

"Meddyliwch be ydi'r peth gwaetha da chi erioed wedi ei wneud," meddai Nan Wyn Powell-Davies, "yna dychmygwch bod pawb da chi'n nabod yn gwybod amdano fo."

Wrth sôn am ei gwaith fel Caplan yng Ngharchar Altcourse, Lerpwl, eglurodd y Parchedig Powell-Davies nad yw pob carcharor yn teimlo cywilydd ac edifeirwch.

Ond mae ei gwaith hi ac eraill yn eu helpu i ddeall sut mae eu trosedd wedi effeithio pobl eraill, gan roi gobaith o'r newydd i'r troseddwr ac i bawb o'i gwmpas.

Clywodd y Gymanfa am brosiectau eraill o dan nawdd yr Eglwys sy'n cynnig gobaith i unigolion a chymunedau led-led Cymru.

Mae Caplaniaeth Prifysgol Morgannwg yn "datblygu ar garlam" meddai Dafydd Andrew Jones. Soniodd hefyd at y gwaith o ehangu a chynnal Canolfan Salem, y Rhyl, yn ogystal â'r gobaith o ddatblygu nifer o swyddi newydd, gan gynnwys gwaith gyda phlant ac ieuenctid de Cymru.

PIGION Y GYMANFA

// Gwenda Richards, Caernarfon, yw'r Llywydd Etholedig newydd. Cafodd ei hethol mewn pleidlais gudd yn y Gymanfa, a bydd yn cymryd yr awennau yng Nghymanfa Gyffredinol 2009. Mae'r Parchedig Richards yn weinidog ar eglwysi Seilo, Caernarfon, a Chapel y Waun, y Waunfawr, ac mae ganddi ddiddordeb mewn datblygu ffyrdd newydd o addoli a rhoi blas cyfoes i oedfaon.

// "Allo'i ddim ond diolch o galon am y ffordd y mae'r eglwysi wedi ymateb" oedd geiriau Catrin Roberts wrth sôn am lwyddiant apêl Dechrau Newydd 2007. Codwyd £250,000 ar gyfer Sierra Leone, sef gwlad dlota'r byd. Apeliodd y Parchedig Roberts ar bawb i barhau i gasglu arian i Gymorth Cristnogol ac i gymryd rhan yn wythnos Cymorth Cristnogol.

// Bydd plac yn cael ei osod yn y Swyddfa Ganolog yng Nghaerdydd er cof am John Roberts, y gweinidog o Gaerdydd a sefydlodd y Gronfa Ganolog er mwyn talu cyflogau i weinidogion.

// Cofiwch bod gan Eglwys Bresbyteraidd Cymru nifer o gylchgronau gwerth chweil. Mae'r Goleuad, The Treasury, Y Traethodydd, Cristion a'r Cylchgrawn Hanes yn werth eu darllen ac yn fargen hefyd! Diolchwyd i'r Golygyddion am eu gwaith caled.

Haydn Thomas a John Owen

Andras Iago

Ifan Roberts

Nan Wyn Powell-Davies yn siarad gyda dau o'i chyd-weinidogion

Gwenda Richards

STATWS GWEINIDOGION YN ANSICR

Er gwaethaf dyfarniad tribiwnlys yn gynharach eleni, mae statws cyflogaeth gweinidogion yn parhau i fod yn ansicr.

Daeth gwrandawiad rhagarweiniol yn achos y Parchedig John Morris ym mis Chwefror i'r casgliad fod gweinidogion Eglwys Bresbyteraidd Cymru yn gyflogedig.

Gallai hyn olygu bod yn rhaid i'r Eglwys ddarparu disgrifiad swydd a chytundeb cyflogaeth yn ogystal â threfn werthuso a threfn ddisgyblu ar gyfer ei gweinidogion.

Ond yn y Gymanfa, cyfeiriodd sawl siaradwr at ddyfarniad gan Dŷ'r Arglwyddi ym 1984 oedd yn dweud nad oedd gweinidogion Eglwys Bresbyteraidd Cymru yn weision cyflog.

Roeddent yn dadlau nad oedd hawl gan y tribiwnlys i anwybyddu penderfyniad Tŷ'r Arglwyddi.

"Fedra'i ddim credu'r peth," meddai'r cyn-Lywydd, Dafydd Owen. "Mae o'n anghredadwy – yn gyfansoddiadol ac yn ôl y ffordd mae pobl yn gweinyddu deddf cyflogaeth."

Cytunodd y cyfreithiwr Cliff Williams na all neb wrthdroi penderfyniad Tŷ'r Arglwyddi. "Dydyn ni ddim yn sicr beth yw'r sefyllfa ar hyn o bryd," meddai.

Er mwyn ceisio ateb i'r sefyllfa, galwodd yr Ysgrifennydd Cyffredinol ar y llywodraeth i benderfynu un ffordd neu'r llall ynglŷn â statws cyflogaeth gweinidogion. Dywedodd Aled Edwards, Prif Weithredwr Cytûn, y byddai Cytûn yn cydweithio â'r mudiad Eglwysi Ynghyd ym Mhrydain ac Iwerddon er mwyn pwyso ar y llywodraeth am ateb.

TREFECA: EGLURHAD

Wedi i'r Eglwys golli tribiwnlys cyflogaeth yn ymwneud â gweithwyr Coleg Trefeca, cafwyd eglurhâd o'r sefyllfa gan yr Ysgrifennydd Cyffredinol a Chadeirydd Adran Trefeca.

Yn dilyn trafodaeth yn y Gymanfa, penderfynwyd y dylai panel yn cynnwys Llywydd y Gymanfa, dau gyfreithiwr ac arbenigwraig mewn adnoddau dynol gyfarfod i drafod dyfarniad llawn y tribiwnlys. Bydd y panel yn adrodd yn ôl i Gymanfa 2009 ac yn rhoi gwybod os oes unrhyw gamau pellach y dylid eu cymryd.

GOBAITH Y FFYDD

"Y person sy'n bwysig ac nid ei ryw na'i rywioldeb," oedd geiriau John Owen wrth ffarwelio â swydd y Llywydd.

"Yr her i'r eglwys yw mynd i mewn i fyd y person arall, rhannu ei wewyr, ei angen a'i ddryswch ac ar yr un pryd barchu ei urddas a'i integriti."

Iesu Grist – ein Gobaith oedd thema y Gymanfa eleni, a gyda thrwch y boblogaeth yn ystyried eu hunain yn Gristnogion, dywedodd y Parchedig Owen bod hyn yn ffynhonnell o obaith i ni heddiw.

Weithiau mae'n rhaid creu neu ddarganfod gobaith mewn byd llawn trasiedi: "Yn rhy aml yr ydym yn bobl sydd yn edrych i mewn i dywyllwch bedd gwag gyda'n cefnau at y wawr a golau dydd."

I bwysleisio'r neges hon, ar y sgrîn tu ôl i'r Parchedig Owen yr oedd darlun a baentiwyd ganddo yn cyfleu yr olygfa o'r bedd wrth i'r wawr dorri.

"Byddwn y gobaith y dymunwn ei weld," meddai wrth gloi, gan atgoffa'r Gymanfa mai Iesu Grist yw meistr ein gobaith: "Iesu nid oes terfyn arnat."

BETH YW'R GYMANFA?

Cyfarfod blynyddol Eglwys Bresbyteraidd Cymru yw'r Gymanfa Gyffredinol. Mae'n cael ei chynnal yn Llanbedr Pont Steffan. Tan eleni, roedd y Gymanfa yn para pedwar diwrnod ym mis Gorffennaf. Eleni, cafodd ei chynnal am dridiau ddechrau Medi.

Mae'r 14 henaduriaeth (ardal) a'r tair Sasiwn (taleithiau mwy) yn anfon cynrychiolwyr, a chynrychiolir pob bwrdd canolog hefyd. Hefyd yn bresennol mae swyddogion yr Eglwys, yn ogystal â chynrychiolwyr o enwadau ac eglwysi eraill.

Mae pob Bwrdd, Adran a Phanel yn rhoi adroddiad yn eu tro, ac mae cyfle i'r Gymanfa gadarnhau eu penderfyniadau neu gynnig gwelliannau. Llywydd y Gymanfa Gyffredinol sy'n cadeirio'r trafodaethau, â'r Ysgrifennydd Cyffredinol yn ei gynorthwyo. Mae dwy ddarlith hefyd, sef y Ddarlith Hanes a'r Ddarlith Davies. Mae defosiwn bob bore a gwasanaeth gyda'r nos, ac un o uchelbwyntiau'r Gymanfa yw araith ymadawol y Llywydd ac arwisgo'r Llywydd newydd.

Thema'r Gymanfa eleni oedd "Iesu Grist – ein Gobaith."

LLEIHAU BILIAU A CHODI ARIAN

Gallwch leihau eich biliau ty tra'n codi arian ar gyfer Eglwys Bresbyteraidd Cymru.

Clywodd y Gymanfa bod yr Eglwys wedi ymuno â chynllun gan gwmni Utility Warehouse, sy'n cynnig gwasanaethau fel ffôn, ffôn symudol, band llydan, nwy a thrydan am bris cystadleuol.

Mae gan Utility Warehouse dros 200,000 o gwsmeriaid, yn cynnwys Haydn Thomas, Llywydd y Gymanfa Gyffredinol.

Os ymunwch ag Utility Warehouse, bydd yr Eglwys yn derbyn cyfraniad o hyd at 5% o'ch bil misol. Mae'r broses o ymuno yn rhwydd a byddwch yn derbyn un bil misol syml. Ac mae modd i gapeli gofrestru hefyd!

Am fwy o wybodaeth, ffoniwch y Swyddfa Ganolog ar 02920 627465 neu Utility Warehouse ar 0800 1313000, gan roi ein rhif apêl, B68077.

John Owen

Lalronghaka Ngalmai

PWYNTIAU GWEDDI O'R GYMANFA

Os gwelwch yn dda, a wnewch chi weddïo dros:

// ORISSA – mae Cristnogion wedi bod yn cael eu herlid yn rhan yma o India. Yn ôl Lalronghaka Ngalmai, cynrychiolydd o Eglwys Bresbyteraidd India, mae llawer o eglwysi wedi eu dinistrio ac mae'r llywodraeth yn gyndyn o helpu. "Does dim diogelwch i gredinwyr Orissa," meddai. Cytunwyd y dylid anfon neges o gefnogaeth i Gristnogion Orissa a gweddïo am heddwch yn y dalaith.

// Y WEINIDOGAETH – gweddïwch ar i'r Arglwydd alw gweithwyr i'r Weinidogaeth ac ar i'r Eglwys fod yn adlewyrchiad cywir o ddymuniad Duw.

// GWEITHWYR YR EGLWYS – am wahanol resymau, cafodd staff Coleg y Bala, Coleg Trefeca a'r Swyddfa Ganolog flwyddyn anodd dros ben. Gofynnir i chi weddïo drostynt wrth iddynt barhau i weithio dros yr Arglwydd ac edrych ymlaen i'r dyfodol.